| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **11 RHAGFYR 2013** |
| **TEITL YR ADRODIAD:** | **ADOLYGIAD O BENODIAD AELOD ANNIBYNNOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH SWYDDOGAETH – ADNODDAU** |
| **GWEITHRED:** | **AR GYFER PENDERFYNIAD** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Mesur Awdurdod Lleol (Cymru) 2011 yn cynnwys yr angen am y tro cyntaf i Bwyllgor Archwilio awdurdod lleol gynnwys oleiaf un aelod annibynnol o fis Mai 2012.

1.2 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio wedi eu ddiwygio yn unol â hynny. Mae'r cylch gorchwyl presennol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys y canlynol yn nhermau aelodaeth o'r Pwyllgor:

*3.4.8.3.3 – Mae'r aelod(au) cyfetholedig, nad yw'n aelod o'r Cyngor, am gael eu recriwtio ar gyfer eu sgiliau sy'n addas a phriodol i waith Pwyllgor Archwilio, ac am gael eu hapwyntio gan aelod o'r Pwyllgor Archwilio ar dermau penodedig wedi'u bennu ganddynt, pan fo'r penodiad yn cael ei wneud.*

1.3 Yn ystod Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 26ain o Fai 2011 penderfynwyd mai dau berson oedd am gael eu recriwtio i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio ar sail di dâl. Yn ystod y Pwyllgor Archwilio gynhaliwyd ar 24ain o Fai 2012 fe wnaeth y Pwyllgor gefnogi argymelliadau'r Panel Pwyllgor Archwilio i benodi dau Aelod Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio.

1.4 Anfonwyd llythyrau penodiad at y ddau Aelod Annibynnol llwyddiannus Gorffennaf 20fed 2012 yn datgan mai dwy flynedd fyddai cyfnod y swydd yn dechrau ar 1af o Orffennaf 2012. Mynychod y ddau Aelod Annibynnol presennol eu cyfarfod cyntaf Gorffennaf 24 2012.

## 2. ADOLYGIAD O'R TREFNIADAU

2.1 Oherwydd yr amser fydd angen ar gyfer y broses o ddethol Aelodau Annibynnol, teimlwyd ei fod yn hwylusach ymgymryd ag adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer Aelodau Annibynnol ac i dderbyn penderfyniad y Pwyllgor ar gyfarfod â gofynion Mesur Awdurdod Lleol (Cymru) 2011 o Fehefin 30ain 2014.

2.2 Gofynir i'r Pwyllgor ystyried y tri opsiwn canlynol ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor o Gorffennaf 2014 ymlaen:

1) Ymestyn y trefniadau cyfredol gyda'r Aelodau Annibynnol presennol am gyfnod o ddwy flynedd ymhellach o fis Gorffennaf 2014 ymlaen;

2) Ymgymryd ag ymarfer recriwtio i ddewis dau Aelod Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor o fis Gorffennaf 2014 am gyfnod o bedair blynedd - Aelodau Annibynnol presennol yn gymwys ar gyfer eu hail ddethol;

3) Ymgymryd ag ymarfer recriwtio i ddewis dau Aelod Annibynnol i wasanaethu ar y Pwyllgor o o fis Gorffennaf 2014 am gyfnod o bedair blynedd - Aelodau Annibynnol presennol yn anghymwys ar gyfer eu hail ddethol.

Opsiwn 2) & 3) i gynnwys newid i gylch gorchwyl y Pwyllgor gyda'r effaith y bydd y broses dethol yn cael ei chynnal bob pedair blynedd ar gyfer dethol hyd at ddau Aelod Annibynnol ac y bydd pob Aelod Annibynnol ond yn gwasanaethu am gyfnod o uchafswm o bedair blynedd yn unig.

2.3 Wrth gwrs, gall y Pwyllgor benderfynu ar ddull arall o ddarparu Aelodaeth Annibynnol gyfredol yn y cyfarfodydd o fis Gorffennaf 2014 ymlaen.

Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)